



# Rhaglen Gyflawn

Gwasanaethau Democraidd  
Swyddfa'r Cyngor  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

Cyfarfod

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 7FED RHAGFYR, 2017**

**NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU YN UNIG AM 10:00AM**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

**\* NODER \***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

<http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home>

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 29 Tachwedd 2017)

## **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

### **AELODAETH (18)**

#### **Plaid Cymru (10)**

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards  
Berwyn Parry Jones  
Catrin Wager  
Simon Glyn

Annwen Hughes  
Linda Morgan  
Gethin Glyn Williams

Aled Wyn Jones  
Edgar Wyn Owen  
Gruffydd Williams

#### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Peter Antony Garlick  
Kevin Morris Jones  
Sedd Wag - Annibynnol

Keith Jones  
Mike Stevens

#### **Llais Gwynedd (2)**

Y Cynghorwyr

Robert Glyn Daniels

Owain Williams

#### **Llaf / Rhydd (1)**

Cynghorydd Stephen Churchman

#### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 10.10.17 fel rhai cywir

## 5. ADOLYGIAD CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY

8 - 63

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dafydd Meurig**

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet

## 6. CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL

64 - 75

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dafydd Meurig**

a) Cefndir a phwrpas

b) Cyflwyno crynodeb sgopio ar gyfer Ymchwiliad Craffu

c) Ystyried aelodau i wasanaethu ar yr Ymchwiliad Craffu

## 7. YMCHWILIAD CRAFFU CYNLLUNIO - DIWEDDARIAD

76 - 78

**Aelod Cabinet : Cynghorydd Dafydd Meurig**

Derbyn adroddiad gan yr Aelod Cabinet ar weithredu argymhellion yr Ymchwiliad Craffu

---

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 10 HYDREF 2017

---

### YN BRESENNOL:

**Y CYNGHORWYR:** Stephen Churchman, Glyn Daniels, Peter Garlick, Simon Glyn, Annwen Hughes, Aled W Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Edgar Wyn Owen, Mike Stevens, Catrin Wager, Gruffydd Williams ac Owain Williams

**SWYDDOGION:** Gareth James (Rheolwr Aelodau - Cefnogi a Chraffu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

### HEFYD YN BRESENNOL:

- a) Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen – Mair Rowlands (Aelod Cabinet – Cefnogaeth Gorfforaethol) a Catherine Roberts (Rheolwr Cyflawni Partneriaeth Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn)
- b) Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen – Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol) a Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd)
- c) Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen - Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd) ac Alun Lewis Evans (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Lles)
- ch) Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen - Cynghorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet - Priffyrdd a Bwrdeistrefol ) a Gwyn Morris Jones ( Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr Elwyn Edwards, Berwyn Parry Jones, Linda Morgan, Gethin Glyn Williams a'r Cynghorydd Dafydd Meurig - Aelod Cabinet Amgylchedd

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

### 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

### 4. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 21.6 2017 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

## 5. DIWEDDARIAD AR Y BARTNERAIETH DIOGELWCH CYMUNEDOL

- a) Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet yn diweddarau'r Pwyllgor ar faes gwaith y Bartneriaeth. Eglurwyd bod gofyn i'r Bartneriaeth adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor yn flynyddol i gyflwyno trosolwg o brif ddatblygiadau strategol y Bartneriaeth dros y flwyddyn ynghyd a'r gwaith comisiynu sydd yn gosod fframwaith i'r blaenoriaethau. Ategwyd bod hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiaid yn unol ag adrannau Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006, drwy gydweithio gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Tynnwyd sylw at y prif negeseuon oedd yn deillio o weithgarwch 2016/2017 ynghyd a phrif lwyddiannau'r flwyddyn. Rhoddwyd sylw penodol i e-gylchlythyr Gogledd Cymru gafodd ei ddatblygu gan Tîm Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn ym maes Camddefnyddio Sylweddau. Derbyniodd y Tîm ganmoliaeth gan Llywodraeth Cymru a chafodd y cylchlythyr ei ddatblygu ymhellach i fod yn wefan rhyngweithiol gyda'r Tîm bellach yn arwain yn rhanbarthol arno.

Amlygwyd y prif gerrig milltir ar gyfer 2017 – 2018 a gofynnwyd i'r Pwyllgor Craffu gefnogi'r blaenoriaethau oedd wedi eu rhestru yn yr adroddiad ynghyd â chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol. Ategwyd y byddai unrhyw gynlluniau / brosiectau oedd yn ymddangos yn *felyn* oherwydd nad oeddynt wedi eu cwblhau, yn cael eu trosglwyddo i'r cynllun ar gyfer 2017 – 2018 neu yn cael eu cynnwys mewn prosiectau rhanbarthol.

- b) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut roedd y Bartneriaeth yn cydymffurfio gyda'r cynllun nodwyd bod sefydlu'r Bwrdd Cymunedau Diogel wedi sicrhau bod asesiad strategol yn cael ei ddatblygu drwy ddefnydd data cyfredol a bod y gwasanaeth yn ymateb yn lleol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â '*call block*' nodwyd bod modd cael offer gan Uned Safonau Masnach y Cyngor ac mewn ymateb i *cybercrime* nodwyd nad oedd prosiect wedi ei adnabod o fewn y Bartneriaeth ond bod yr Heddlu a'r Uned Safonau Masnach yn cydweithio ar y mater.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gwersi sydd yn cael eu dysgu mewn sefyllfa o Laddiad Domestig, nodwyd bod dyletswydd statudol ar y Bartneriaeth i gynnal adolygiad i bob lladdiad domestig. Amlygwyd bod adroddiad o'r gwersi sydd i'w dysgu ynghyd ag argymhellion a chynllun gwaith yn cael eu cyflwyno i'r Swyddfa Gartref. Unwaith mae'r Swyddfa Gartref yn derbyn yr adroddiad, bydd yn cael ei rannu gyda Phartneriaethau eraill.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â throseddau tymhorol, nodwyd bod yr Heddlu yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn cynllunio ar gyfer y tymhorau prysuraf. Amlygwyd bod yr Heddlu yn defnyddio fformiwla arbennig i ganfod lle sydd angen blaenoriaeth. Ategwyd nad oedd mwy o adnoddau ar gael ac felly angen gwneud y gorau o bob sefyllfa.

### PENDERFYNWYD

- **derbyn yr adroddiad**
- **cefnogi blaenoriaethau a chyfeiriad gwaith y Bartneriaeth i'r dyfodol.**

## 6. INCWM Y GWASANAETH DIFA PLA

- a) Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Amgylchedd yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd yn ymdrech Gwasanaeth Difa Pla y Cyngor i gynhyrchu mwy o incwm. Atgoffwyd yr Aelodau fel rhan o raglen arbedion effeithlonrwydd Adran yr Amgylchedd bod ystyriaeth wedi ei roi i diddymu'r gwasanaeth. Yn dilyn penderfyniad gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn Ionawr 2016, i wneud y gwasanaeth yn hunangynhaliol gyllidol,

lluniwyd fframwaith a chynllun i greu incwm ychwanegol. Cyflwynwyd y cynllun i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ym Mehefin 2016 lle cafodd yr argymhellion eu derbyn. Ymhellach, penderfynodd y Cabinet gynyddu targed incwm y Gwasanaeth yn hytrach nai ddiddymu.

Tynnwyd sylw at natur y gwasanaeth oedd yn cael ei gynnis a hefyd at y gwaith manwl a wnaed i ystyried yr opsiynau oedd ar gael i sicrhau gwasanaeth hunangynhaliol. Cyflwynwyd ffioedd newydd ar gyfer pob agwedd o'r gwaith yn Medi 2016 ynghyd ac ymgyrch farchnata gyda chefnogaeth yr Uned Gyfathrebu. Adolygwyd trefniadau gwaith a'r costau oedd ynghlwm ynddynt. Er nad oedd modd adrodd ar effaith yr addasiadau yn llawn, adroddwyd bod cynnydd o oddeutu £10k eisoes wedi ei wneud dros hanner blwyddyn ariannol 2016 / 2017. Ategwyd bod yr Adran yn hyderus o gyrraedd y targed o £40k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yma.

Amlygwyd y byddai'r Gwasanaeth yn cadw llygad ar y galw sydd yn ddibynnol ar nifer o ffactorau tu hwnt i'w rheolaeth. Adroddwyd bod cynllun wrth gefn i gynyddu'r incwm petai'r llif gwaith yn annigonol.

- b) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:
- Bod angen gwella'r elfen farchnata gan ystyried logo / brand / arwyddair deinamig
  - Bod angen ystyried gwasanaeth fyddai yn ychwanegu gwerth i'r dyfodol - un fyddai yn gwneud elw yn hytrach na hunangynhaliol yn unig
  - Bod angen herio cwmnïau cenedlaethol yng nghyd-destun cytundebau masnachol
- c) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a unrhyw sylwadau gan y cyhoedd am anfodlonrwydd y gwasanaeth, adroddwyd bod yr adborth oedd wedi ei gasglu hyd yma yn galonogol iawn ac y gorau o fewn yr Adran Eiddo.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â difa pal ar y stryd, adroddwyd nad oedd y gwaith yma yn denu incwm, ond pe byddai pla yn tarfu ar iechyd y cyhoedd, byddai'r mater yn cael ei flaenoriaethu ac fe fyddai'r Gwasanaeth yn cydweithio gyda Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd i ymdrin â'r broblem.

- ch) Croesawyd yr adroddiad a chanmolwyd y gwasanaeth. Ategwyd bod y gwasanaeth yn mynd i'r cyfeiriad cywir.

#### **PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

### **7. ARCHWILIAD YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD**

- a) Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth yr Amgylchedd yn diweddarau'r Aelodau ar y cynnydd a wnaed gan Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd i gyfarch argymhellion yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn dilyn archwiliad a gynhaliwyd Chwefror 2016.

Adroddwyd bod y Gwasanaeth wedi darparu cynllun gweithredu manwl i gyfarch y 34 argymhelliad. Tynnwyd sylw bod 21 o'r argymhellion wedi eu cyfarch hyd yma gyda'r gwaith i gwrdd ar 13 arall yn parhau. Ategwyd bod rhai o'r argymhellion hynny sydd heb eu cyfarch yn ddibynnol a'r gyfeirio mwy o adnoddau i'r Gwasanaeth. Adroddwyd bod y Gwasanaeth wedi gweld gostyngiad sylweddol mewn staff o ganlyniad i'r gyfundrefn toriadau ond yn parhau i geisio blaenoriaethu'r gwaith. Er hynny, nodwyd nad oedd sefydliadau risg isel yn derbyn archwiliadau o fewn yr amserlen sydd yn cael ei argymhell gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Adroddwyd hefyd bod cymwysterau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, sydd yn gorff annibynnol yn archwilio sefyllfa ddelfrydol, yn uchel, ond y gwasanaeth bellach yn cynnig hyfforddiant i gyfarch hyn.

Nodwyd bod dros 2000 o sefydliadau bwyd o fewn ardal wledig Gwynedd gyda 1500 ohonynt yn cael eu harchwilio yn flynyddol. O ran perfformiad, adroddwyd bod 98% o'r sefydliadau bwyd ar draws y Sir yn sgorio rhwng 3 a 5 sydd yn dda iawn. Ategwyd bod y gwasanaeth hefyd yn edrych ar sicrhau modd y gall swyddogion weithio yn fwy effeithiol drwy fod allan yn y maes yn hytrach na dyblygu gwaith gweinyddol / ychwanegol yn y swyddfa. Nodwyd bod sefydliadau bwyd yn gwerthfawrogi'r Gwasanaeth ac yn cynnig adborth cadarnhaol i'r gwaith. Ategwyd bod y Gwasanaeth yn cefnogi'r economi leol wrth gynnal yr archwiliadau hyn.

- b) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:
- Pryder nad oedd gan y Gwasanaeth adnoddau digonol i gyflawni gofynion yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn llawn
  - Bod angen gwella cymwysterau staff
  - Bod angen monitro'r sefyllfa yn aml
  - Y dylid rhoi blaenoriaeth i sefydliadau risg uchel
  - Y dylid ystyried codi ffi am ymweliadau neu gosb am beidio cydymffurfio
- c) Mewn ymateb i sylw ynglŷn â gwella cymwysterau, nodwyd bod cyfres o sesiynau hyfforddi wedi eu cynnal a bod y gwasanaeth yn debygol o gyrraedd y lefel disgwylidiedig.

Mewn ymateb i sylw am godi ffi am ymweliadau, nodwyd bod y sylw wedi ei drafod yn genedlaethol, ond gan fod y gwaith yn statudol, nid oedd modd codi incwm. Ategwyd nad oedd llawer o sgôp i godi ffi am waith o fewn y maes ond gyda hawl darparu cyngor byddai modd ystyried hyn.

#### **PENDERFYNWYD**

- **Bod y Pwyllgor yn hapus bod mwyafrif o'r argymhellion wedi eu cyflawni, ond bod pryder o ddiffyg adnoddau i gyflawni'r gwaith statudol o fewn yr amserlen yn creu risg i'r Cyngor ac i drigolion y Sir.**
- **Bod y gwasanaeth yn cyflawni gwaith da o dan amgylchiadau heriol.**
- **Cynnig i'r Adran gyflwyno mwy o wybodaeth a ffeithiau er mwyn herio'r angen am fwy o adnoddau i gyfarch y gofynion statudol.**

## **8. GORFODAETH GWASTRAFF**

- a) Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn gofyn i'r Pwyllgor am gefnogaeth i sefydlu Tîm Tasg o Aelodau'r Pwyllgor i edrych i mewn i faterion Gorfodaeth Gwastraff ac i bwrpas, cyngori'r Pwyllgor ar y ffordd ymlaen.

Tynnwyd sylw at gefndir y bwriad lle'r oedd cynnig gan gyn Aelod wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn Mawrth 2017, i'r Aelod Cabinet ystyried cyflwyno cosb fel mater o flaenoriaeth i drigolion sydd yn gwaredu eu sbwriel ar ddiwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir.

Awgrymwyd bod angen pedwar aelod o'r Pwyllgor i ymuno â swyddogion perthnasol ar gyfer y Tîm Tasg.

#### **PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr egwyddor**
- **Rhaglennu a blaenoriaethu llwyth gwaith y Pwyllgor yn y Cyfarfod Anffurfiol gan fod tri ymchwiliad / gweithgor bellach angen eu cynnal.**
- **Enwebu y Cyngorwyr Stephen Churchman, Keith Jones, Mike Stevens a Catrin Wager fel aelodau i'r Tîm Tasg Gorfodaeth Stryd**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12pm

# Eitem 5

|                      |  |
|----------------------|--|
| <b>PWYLLGOR</b>      | Pwyllgor Craffu Cymunedau  |
| <b>DYDDIAD</b>       | 7 Rhagfyr 2017   |
| <b>TEITL</b>         | <b>ADOLYGIAD CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY</b>   |
| <b>AELOD CABINET</b> | Y Cyngorydd Dafydd Meurig  |
| <b>PWRPAS</b>        | Adrodd ar gynnydd gyda'r gwaith o baratoi adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac i dderbyn barn y Pwyllgor ar y Datganiad Gweithredu drafft. |

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Fe adroddwyd i'r Pwyllgor yma ym mis Medi 2016, ac wedyn ym mis Mawrth 2017, ynglŷn â'r bwriad i adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT). Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddarau'r Pwyllgor ar yr hyn sydd wedi ei wneud ac i ofyn am arweiniad ynglŷn â'r Datganiad Gweithredu drafft.
- 1.2 Mae'r CGHT yn ddogfen strategol i'w defnyddio er mwyn cynllunio ar gyfer rheoli, datblygu a hyrwyddo eu rhwydwaith hawliau tramwy. Paratowyd CGHT presennol Gwynedd rhwng 2004 a 2007 a chafodd ei fabwysiadu gan y Cyngor, a'i gyhoeddi, ym mis Hydref 2007.
- 1.3 Hyd oes y CGHT yw deg mlynedd ac yn 2016, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i Awdurdodau Lleol ar gyfer adolygu eu Cynlluniau. Mae'r Pwyllgor Craffu eisoes wedi cymeradwyo y dylid cynnal adolygiad o'r CGHT presennol a chyhoeddi cynllun newydd yn unol â'r canllawiau cyn Tachwedd 2018.
- 1.4 Mae'r gwaith o baratoi'r CGHT wedi cael ei rannu i ddau ran, sef:

**Rhan 1: Adolygu** - yn yr adroddiad yma, rhoddir sylw i'r gofynion canlynol:

- Gwerthuso i ba raddau y cyflawnwyd amcanion y CGHT blaenorol,
- Asesu cyflwr presennol y rhwydwaith a'i hanes,
- Canfod i ba raddau y mae hawliau tramwy lleol Gwynedd yn bodloni gofynion y cyhoedd nawr ac yn y dyfodol.

**Rhan 2: Datganiad Gweithredu** - mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r prif themâu a fydd yn llywio'r Datganiad Gweithredu yn ogystal â rhestr ddrafft o'r camau gweithredu a fydd, yn eu tro, yn sail i'r rhaglenni gwaith.

- 1.5 Rhaid nodi bod adolygiad y CGHT yn digwydd ar adeg pan mae Llywodraeth Cymru yn ystyried newid deddfwriaethol ym maes mynediad ac maent eisoes wedi cynnal dau ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â thrawsnewid deddfwriaeth mynediad yng Nghymru. Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd newid yn y ddeddfwriaeth ac, os felly, pryd y byddai'n dod yn weithredol. Gan hynny, rhaid i'r adolygiad CGHT fynd yn ei flaen yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth bresennol.



## 2. CASGLU GWYBODAETH AG YMGYSYLLTU

- 2.1 Er mwyn cael darlun o'r sefyllfa gyfredol o safbwynt cyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy a chael barn y cyhoedd, ymgymerwyd â'r canlynol:

**Ymgynghoriad cyhoeddus** - bwriad yr ymgynghoriad oedd casglu barn trigolion Gwynedd ac eraill ar anghenion mynediad. Paratowyd holiaduron digidol yn ogystal â fersiwn papur ar gyfer ei ddsbarthu i Siopau Gwynedd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden drwy'r Sir. Hwrwyddwyd yr holiadur ar safle we'r Cyngor a drwy gyfryngau cymdeithasol. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng y 10fed o Orffennaf a'r 1af o Fedi 2017.

Derbyniwyd 1,386 o ymatebion dilys, gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt (97.1%) yn cael eu derbyn ar-lein. Cyflwynir adroddiad llawn o ganlyniadau'r ymgynghoriad yn Atodiad 1.

**Asesiad o gyflwr y rhwydwaith** - nid yw'r canllawiau cenedlaethol yn gosod rheidrwydd ar Awdurdodau Lleol i gynnal arolwg manwl o'u rhwydwaith. Serch hynny, credir nad yw'n rhesymol ystyried paratoi CGHT newydd heb ymgymryd â throsolwg o gyflwr ffisegol y rhwydwaith. Yn wahanol i'r sefyllfa pan baratowyd y cynllun gwreiddiol, nid oedd yr adnoddau ar gael y tro yma i gynnal asesiad cynhwysfawr o'r rhwydwaith. Ar yr adeg hynny, penodwyd swyddogion llawn amser ac aseswyd oddeutu 35% o'r rhwydwaith. Y tro yma, defnyddiwyd data o 3 prif ffynhonnell, sef:

- Gwybodaeth wedi'i gasglu gan swyddogion y Cyngor,
- Gwybodaeth wedi'i gasglu gan swyddogion y Parc Cenedlaethol,
- Gwybodaeth wedi'i gasglu gan aelodau Cymdeithas y Cerddwyr fel rhan o'u hymgyrch cenedlaethol *Pathwatch*.

Mae'r wybodaeth yn berthnasol i 998km o lwybrau, neu 26% o'r rhwydwaith.

**Ymgynghoriadau eraill** - yn ychwanegol i'r uchod, gofynnwyd am farn y tri Fforwm Mynediad Lleol yn ardal Gwynedd ac ymgynghorwyd a chynghorau cymuned a thref dros aeaf 2016 / 17.

## 3. RHAN 1: YR ADOLYGIAD

- 3.1 Yn y rhan yma o'r adroddiad, cyflwynir trosolwg o ganfyddiadau'r adolygiad i'r materion a nodir yn 1.4. Defnyddir y wybodaeth fel sail i baratoi Datganiad Gweithredu drafft sydd yn rhan 4 o'r adroddiad hwn. Bydd cyfle i roi ystyriaeth fanylach i'r canlyniadau yn y CGHT drafft fydd yn cael ei baratoi dros y misoedd nesaf.

- 3.2 **Gwerthuso i ba raddau y cyflawnwyd amcanion y CGHT blaenorol:** Mae Atodiad 2a yn nodi'r meysydd gweithredu a oedd wedi eu cynnwys yn CGHT 2007 gydag eglurhad os ydynt wedi eu cyflawni neu beidio.

**Sylwadau:** Mae'n rhesymol i gasglu bod y mwyafrif o'r gweithredoedd wedi eu cyflawni'n llawn neu'r rhannol. Fodd bynnag, wrth ystyried y camau sydd heb eu gweithredu'n llawn neu'n rhannol, dylid nodi'r ffactorau canlynol:

- Mae sawl gweithred, er enghraifft cynigion 1/3 a 4/4, yn cynnig opsiynau gwahanol a oedd yn ddibynnol ar adnoddau, cyllid neu staff. Ar y cyfan, nid yw'r cynigion a oedd angen yr adnoddau mwyaf wedi eu cyflawni. Amcangyfrifir y byddai angen lleiafswm o £8miliwn o gyllid ychwanegol i weithredu'r cynigion delfrydol yn y CGHT blaenorol.
- Gellir dadlau nad yw'n rhesymol i lunio rhaglen waith mor gynhwysfawr dros gyfnod mor hir gan na ellir rhagweld dylanwadau, megis:
  - newid yn yr hinsawdd ariannol
  - newid ym mlaenoriaethau cyrff allweddol fel Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru
- Nid yw pob gweithred yn fesuradwy.

Mae'n bwysig tynnu sylw at y llwyddiannau dros y 10 mlynedd ddiwethaf a nodi'r rhai ohonynt yn Atodiad 2a. Ariannwyd y mwyafrif o'r cynlluniau drwy grantiau Llywodraeth Cymru a chronfeydd Ewropeaidd.

### 3.3 **Asesiad o gyflwr y rhwydwaith a'i hanes:** Gwelir Atodiad 2b

#### **Sylwadau**

- Mewn ymateb i gwestiwn 3.10 (problemau ar hawliau tramwy), roedd 61.2% o rai wnaeth ateb wedi dod ar draws problem wrth ddefnyddio hawliau tramwy. O'r problemau a adnabuwyd, diffyg arwyddion neu arwyddion camarweiniol oedd y brif broblem. Mae'r diffyg yma yn cael ei amlygu hefyd yn yr arolwg cyflwr.
- Roedd rhwystrau bwriadol yn broblem ddifrifol neu ddifrifol iawn ym marn 54.3% o rai wnaeth ateb yr holiadur.
- Gwelir yn yr ymateb i gwestiwn 25 (blaenoriaethu adnoddau) bod peth anfodlonrwydd gyda'r drefn categoreiddio ac, yn wir, nifer cymharol isel oedd yn gefnogol i gadw at y safiad presennol o flaenoriaethu categorïau 1 a 2 yn unig. Roedd y drefn categoreiddio yn ddull o ymateb i'r sefyllfa ariannol ac wedi ei anelu at adnabod y llwybrau mwyaf poblogaidd a oedd yn gwasanaethu cymunedau neu'n creu rhwydweithiau cyfleus a deniadol i bobl leol a thwristiaid. Mae'n rhaid cydnabod bod angen asesu a diweddarau'r drefn categoreiddio i adlewyrchu newidiadau a datblygiadau fel y Llwybr Arfordir sydd wedi digwydd dros y 10 mlynedd ddiwethaf. Sut bynnag, mae'n anodd gweld bod opsiwn arall ar gael ar gyfer blaenoriaethu adnoddau sy'n ymarferol a theg ac y gellir ei fabwysiadu.

### 3.4 **Y graddau mae hawliau tramwy lleol yn bodloni gofynion nawr ac yn y dyfodol:** Cyfeirir at Atodiad 1, Adroddiad Holiadur Hawliau Tramwy.

#### **Casgliadau**

- Mewn ymateb i gwestiwn 3.16: "Ydych yn credu fod y rhwydwaith hawliau tramwy presennol yn addas ac yn cwrdd â gofynion y mwyafrif o ddefnyddiwr?"

Yr ateb oedd 44% ydyw, 41% nac ydyw a 15% dim ateb.

Mae'r ateb yma i weld yn dangos bod rhaniad barn eithaf cyfartal rhwng bodlonrwydd gyda'r rhwydwaith presennol a dymuniad i weld newid. O'r rai a oedd o'r farn nad yw'r rhwydwaith yn cwrdd â'u gofynion, roedd nifer uchel yn credu dylid cael rhagor o lwybrau aml bwrpas fyddai'n addas ar gyfer marchogaeth a beicio.

- Mae'r dyhead am ragor o lwybrau aml ddefnydd yn nod dylid ei gefnogi ond rhaid cydnabod bod deddfwriaeth bresennol yn aml yn rhwystr i newid statws llwybrau, er enghraifft newid statws llwybr troed i lwybr marchogaeth fyddai hefyd yn caniatáu beicio.  
Tynni'r sylw at gynnis Llywodraeth Cymru yn eu dogfen ymgynghorol "Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy" y dylid newid deddfwriaeth i ganiatáu beicio a marchogaeth ar bob llwybr troed. Sylw'r Cyngor ar y cynnis oedd y byddai'n anymarferol i'w weithredu ac yn debygol o achosi anghydfod rhwng defnyddwyr a rheolwyr tir.
- Mae'r galw am gylchdeithiau lleol yn uchel ymysg pobl sydd wedi ymateb i gwestiwn 3.12 yn yr holiadur.

#### 4. RHAN 2: Y DATGANIAD GWEITHREDU

4.1 Yn y Datganiad Gweithredu, mae angen adnabod y prif themâu gwaith a'r camau gweithredu ar gyfer oes y CGHT newydd. Dyma fydd sail ar gyfer paratoi rhaglenni gwaith mwy manwl. Yn wahanol i'r cynllun blaenorol, bydd y mwyafrif o'r rhaglen waith yn cael ei lunio ar gyfer blwyddyn neu ddwy yn hytrach na chyfnod o 10 mlynedd. Bydd gweithredu yn y modd yma yn arwain at raglenni gwaith realistic a chyraeddadwy yn ogystal ag osgoi rhai o wendidau'r cynllun blaenorol.

4.2 Wrth baratoi'r Datganiad Gweithredu, rhoddir ystyriaeth i'r sylwadau yn rhan 3 o'r adroddiad hwn.

4.3 Mae'n anorfod bod rhaid ystyried y rhaglen weithredol yng nghyd-estyn adnoddau. Tynni'r sylw'r Pwyllog i'r ffactorau canlynol:

- Yn 2007/08, roedd y gyllideb graidd ar gyfer cynnal hawliau tramwy yn £351,000. Yn 2017/18, mae wedi lleihau i £175,000 sy'n cynnwys cefnogaeth i'r cynghorau cymuned. Gyda'r lleihad mewn cyllidebau, rhoddwyd blaenoriaeth i lwybrau categori 1 a 2 yn unig. Yn anffodus mae'n anorfod bydd y sefyllfa gyllidol yn arwain at ddirywiad yng nghyflwr y rhwydwaith dros y blynyddoedd nesaf.

Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys gwariant y Parc Cenedlaethol ar lwybrau na'r grant a dderbynnir tuag at gynnal y Llwybr Arfordir.

- Hyd at 2016/17, roedd £70,000 y flwyddyn yn cael ei glustnodi tuag at gefnogi gwaith cynnal a chadw gan y cynghorau cymuned. Yn 2017/18, lleihawyd y cyfraniad i £35,000.
- Yn 2007/08 roedd 16.5 aelod o staff llawn amser yn ymwneud a rheoli, cynnal a datblygu hawliau tramwy a chyfluoedd mynediad eraill e.e. Lonydd Glas. Yn 2017/18, mae'r nifer o staff llawn amser wedi lleihau i 8.5 gyda 2 aelod o staff ar gytundebau dros dro.

#### 4.4 Datganiad Gweithredu drafft.

##### **Prif Thema 1. Cynnal y rhwydwaith presennol**

###### **Cam Gweithredu 1.1**

**Blaenoriaethi'r adnoddau i gynnal llwybrau o fewn categori 1 a 2. Bydd y llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo gan y Cyngor a APCE yn disgyn o fewn y categorïau yma, ynghyd a llwybrau eraill megis y rhwydwaith Lonydd Glas. Bydd angen ail edrych ar y cam yma yn dilyn adolygiad o'r drefn categoreiddio.**

###### **Eglurhad**

Er bod beirniadaeth o'r drefn categorïau; yn y tymor byr, dyma'r drefn fwyaf ymarferol fydd yn galluogi i'r llwybrau mwyaf poblogaidd fod mewn cyflwr derbyniol. Rhaid cydnabod y bydd diffyg cynnal ar weddill y rhwydwaith yn arwain at ddirywiad pellach yng nghyflwr llawer o lwybrau yn ogystal ag ôl-groniad o waith a chostau os am eu hadfer i safon dderbyniol.

Yn ystod oes y CGHT, gellir adolygu'r safiad yma mewn ymateb i unrhyw newid mewn deddfwriaeth neu argaeledd adnoddau.

###### **Cam Gweithredu 1.2**

**Parhau i gydweithio gyda chynghorau cymuned a thref i gefnogi gwaith o gynnal llwybrau sy'n bwysig yn lleol.**

###### **Eglurhad**

Dangosodd ymarferiad ymgysylltu dros aeaf 2016/17 bod y mwyafrif helaeth o gynghorau cymuned a thref yn awyddus i weld llwybrau poblogaidd yn cael eu cynnal. Roedd dealltwriaeth ymysg llawer o'r cynghorau bod cyfleoedd mynediad yn bwysig i'r economi a llesiant pobl leol. Mae cael trefniant cydweithio gyda'r cynghorau yn lleihau llwyth gwaith i'r Cyngor a'r APCE.

###### **Cam Gweithredu 1.3**

**Cefnogi gwaith gan wirfoddolwyr a mudiadau lleol i gynnal hawliau tramwy.**

###### **Eglurhad**

Mae asesiad Llesiant Gwynedd a Môn yn cyfleu pa mor bwysig yw'r Amgylchedd Naturiol i bobl Gwynedd ac mae cydnabyddiaeth bod cymryd rhan mewn gwaith ymarferol o fewn eu cymunedau o fudd i iached a lles unigolion.

Mae unigolion a mudiadau eisoes yn cyfrannu tuag at gynnal hawliau tramwy a chafwyd sylwadau mewn ymateb i'r holiadur yn gofyn i'r Cyngor gynnig mwy o gyfleoedd gwirfoddoli.

## **Prif Thema 2 : Rheoli'r rhwydwaith**

### **Cam Gweithredu 2.1**

#### **Adolygu a diweddarau dogfen Polisiâu Hawliau Tramwy Cyhoeddus.**

##### **Eglurhad**

Dylid diweddarau'r ddogfen er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mewn adnoddau a phwyslais ers 2007.

### **Cam Gweithredu 2.2**

#### **Adolygu a diweddarau'r drefn o gategoreiddio hawliau tramwy.**

##### **Eglurhad**

Sefydlwyd y drefn categoreiddio dros 10 mlynedd yn ôl gyda mewnbwn y cyngorau cymuned a thref. Pwrpas categoreiddio oedd blaenoriaethu'r adnoddau cynnal a chadw oedd ar gael. Gyda lleihad o 50% yn y gyllideb cynnal ers 2007/08, mae'r angen i flaenoriaethu yn bwysicach byth. Pwysleisir nad yw cynnwys llwybr mewn categori isel yn golygu nad oes gan y Cyngor ddyletswydd statudol i'w gynnal.

Mae'n amlwg erbyn hyn nad yw'r categorïau presennol mewn sawl achos yn adlewyrchu defnydd a blaenoriaethau lleol; yn enwedig wrth ystyried cysylltiadau posibl ar gyfer cynlluniau Teithio Llesol a chylchdeithiau lleol.

### **Cam Gweithredu 2.3**

#### **Cryfhau trefniadau cydweithio gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.**

##### **Eglurhad**

Mae llawer eisoes yn cael ei wneud ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol. Mae'n synhwyrol ar adeg lle mae adnoddau'n brin bod camau ymarferol yn cael eu cymryd i wneud y defnydd gorau o sgiliau staff ac adnoddau'r ddau gorff er budd cymunedau ac economi Gwynedd.

### **Prif Thema 3 : Cynnal a diweddarau'r map diffiniol a datganiadau**

#### **Cam Gweithredu 3.1**

##### **Parhau i gynnal a diweddarau'r map diffiniol a'r datganiadau swyddogol**

###### **Eglurhad.**

Mae'r map diffiniol a'r datganiadau swyddogol yn gofnod o fodolaeth a statws hawliau tramwy sydd wedi eu paratoi a'u mabwysiadu yn dilyn trefn gyfreithiol drwyadl a hirfaith. Y map diffiniol a'r datganiad yw'r dystiolaeth bwysicaf o bell ffordd os codi'r amheuaeth ynglŷn â bodolaeth neu statws hawl tramwy.

#### **Cam Gweithredu 3.2**

##### **Cefnogi ceisiadau i ddiwygio'r map swyddogol ar gyfer creu hawliau tramwy newydd neu i gadarnhau hawliau uwch os yw'r newidiadau o fudd sylweddol i'r nifer mwyaf o ddefnyddwyr.**

###### **Eglurhad**

Mae'r drefn bresennol o greu neu newid statws hawliau tramwy yn gallu bod yn gymhleth ac yn drwm o ran amser ac adnoddau staff. Rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth i bob cais i ddiwygio'r map swyddogol ond dylid blaenoriaethu ceisiadau fydd yn dod a'r budd mwyaf i'r nifer mwyaf o ddefnyddwyr.

### **Prif Thema 4 : Uwchraddio a gwella'r rhwydwaith**

#### **Cam Gweithredu 4.1**

##### **Cefnogi datblygiad llwybrau cylch sy'n gwasanaethu cymunedau lleol neu'n cysylltu â chyrchfannau ac atyniadau poblogaidd.**

###### **Eglurhad**

Mae'r holiadur yn dangos fod llwybrau cylch yn bwysig i lawer o ddefnyddwyr gan eu bod yn adnodd sy'n gyfleus ar gyfer hamdden a chadw'n heini. Bydd yn bosibl cynnwys rhai llwybrau o fewn rhaglenni gwaith i ddatblygu llwybrau Teithio Llesol.

#### **Cam Gweithredu 4.2**

##### **Cefnogi rhagor o lwybrau aml ddefnydd - cerdded, cadair olwyn, beicio a marchogaeth - os gellir dangos fod y llwybrau am wasanaethu carfan sylweddol o'r gymuned.**

###### **Eglurhad**

Mae'r holiadur yn dangos galw cryf am lwybrau aml ddefnydd. Fodd bynnag, rhaid blaenoriaethu llwybrau sydd am ddod a'r budd mwyaf i nifer mwyaf o ddefnyddwyr. Mae'n debygol gellir datblygu rai llwybrau o fewn rhaglenni gwaith Teithio Llesol. Dylid manteisio lle'n bosibl o raglenni grant i wneud gwelliannau mawr ac i gydweithio gyda mudiadau sy'n cynrychioli defnyddwyr.

#### **Cam Gweithredu 4.3**

##### **Parhau i weithredu yn unol ag egwyddor yr opsiwn lleiaf cyfyngol.**

###### **Eglurhad**

Gweithredwyd yn unol â'r egwyddor leiaf cyfyngol (gosod giatiau yn lle camfeydd neu dim dodrefn o gwbl) ers 2007. Dylid parhau i wella'r ddarpariaeth sy'n cwrdd â gofynion defnyddwyr sy'n llai abl.

## **Prif thema 5 : Gwybodaeth a hyrwyddo**

### **Cam Gweithredu 5.1**

**Darparu map ar-lein sy'n dangos y rhwydwaith hawliau tramwy a chyfleoedd mynediad.**

#### **Eglurhad**

Mae'n arferol erbyn hyn i droi at y we i gael gwybodaeth. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr i bobl Gwynedd ar safle we'r Cyngor ynglŷn â'r cyfleoedd mynediad sydd ar gael iddynt. Mae gwybodaeth ar gael ar safle we'r Parc Cenedlaethol ac mae'r prif deithiau yn cael eu hyrwyddo ar safle we Eryri Mynyddoedd ac Mor.

### **Cam Gweithredu 5.2**

**Cydweithio gydag Adrannau eraill o'r Cyngor ac asiantaethau eraill i hyrwyddo a marchnata hawliau tramwy ac asedau naturiol Gwynedd.**

#### **Eglurhad**

Mae twristiaeth yn rhan allweddol o economi Gwynedd sy'n cynnal dros 15,000 o swyddi. Mae 60% o ymwelwyr wedi nodi mai cerdded yw'r prif reswm pam eu bod yn ymweld â Gwynedd.

## **5. Y CAMAU NESAF**

5.1 Yn dilyn derbyn sylwadau'r Pwyllgor ar y Datganiad Gweithredu Drafft, dyma ragwelir bydd y camau nesaf :

- Rhoi cyfle i'r Parc Cenedlaethol roi sylw ar y Datganiad Gweithredu drafft,
- Ymgynghori gyda'r Fforymau Mynediad Lleol,
- Cyflwyno fersiwn drafft cyflawn o'r CGHT i'r Pwyllgor yma yn ystod gwanwyn 2018 a derbyn cefnogaeth i'w ddefnyddio ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus,
- Cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun drafft am leiafswm o 12 wythnos. Anelir i gynnal yr ymgynghoriad yn ystod misoedd Mai, Mehefin a Gorffennaf 2018.
- Medi / Hydref 2018 - dychwelyd i'r Pwyllgor gyda fersiwn terfynol o'r CGHT.
- Cyn diwedd Tachwedd 2018 - derbyn cymeradwyaeth y Cyngor a'r Parc Cenedlaethol i fabwysiadu a chyhoeddi'r Cynllun newydd

## **6. ARGYMHELLIAD**

6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor am eu barn ar y Datganiad Gweithredu drafft ac i gymeradwyo'r camau nesaf tuag at baratoi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

6.2 Cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Craffu mewn oddeutu 6 mis.

# Holiadur Hawliau Tramwy

**Dyddiad Cyflwyno:** 2017-10-09

**Awduron:** Tîm Ymchwil a Dadansoddeg



# Cynnwys

|                               | <b>Tudalen</b> |
|-------------------------------|----------------|
| Cyflwyniad                    | 3              |
| Methodoleg                    | 5              |
| Ymatebion i'r holiaduron      | 6              |
| Eich defnydd o hawliau tramwy | 7              |
| Eich barn                     | 16             |
| Eich barn o hawliau tramwy    | 23             |

# 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Gwynedd ar y cyd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn bwriadu adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT).

Dogfen strategol yw'r CGHT i'w defnyddio gan Awdurdodau Lleol er mwyn cynllunio ar gyfer rheoli, datblygu a hyrwyddo eu rhwydwaith hawliau tramwy. Bydd y CGHT yn gosod fframwaith ar gyfer adnabod, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliannau i'w rhwydwaith hawliau tramwy a mynediad i gefn gwlad er budd cerddwyr, beicwyr, marchogwyr, unigolion sydd â phroblemau symudedd ac eraill.

Mae Hawliau Tramwy yn cynnwys llwybrau troed, marchogaeth a chilffyrdd (lonydd cul fel arfer, yn aml heb wyneb), ond nid ydynt yn cynnwys ffyrdd.

Fel rhan o'r adolygiad, roedd y gwasanaeth yn awyddus i gael barn trigolion i'w cynorthwyo i gynllunio ar gyfer sut y gallent wella a chynnal y rhwydwaith Hawliau Tramwy yng Ngwynedd. Bydd yr ymatebion i'r holiadur felly yn cael eu hystyried wrth adolygu'r CGHT.

## Y System Gategoreiddio

Mae'r drefn hon o gategoreiddio hawliau tramwy wedi cael ei mabwysiadu gan Gyngor Gwynedd er mwyn helpu blaenoriaethu adnoddau tuag at gynnal y rhwydwaith hawliau tramwy. Mae mwyafrif o hawliau tramwy'r sir yn disgyn i un o bedwar categori. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i lwybrau yng nghategoriau 1 a 2 sef oddeutu 45% o'r rhwydwaith.

### Categori 1

Mae'r mwyafrif o'r llwybrau hyn eisoes yn cael eu defnyddio'n helaeth ac yn ffurfio cysylltiadau o fewn trefi, pentrefi neu rhwng cyfleusterau trafniadaeth gyhoeddus, meysydd parcio ac atyniadau. Maent yn cynnwys:

- Lwybrau a theithiau sy'n cael eu hyrwyddo gan Gyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol gan gynnwys y Llwybr Arfordir.
- Lwybrau sy'n cysylltu ardaloedd trefnol neu lwybrau o fewn ardaloedd trefol.
- Y rhwydwaith Lonydd Glas a llwybrau sydd â photensial uchel i'w datblygu i fod yn llwybrau "Teithio Llesol".

### Categori 2

Llwybrau poblogaidd a ddefnyddir yn bennaf er pleser gan gynnwys llwybrau o amgylch cymunedau, teithiau cylch neu fynediad i dir agored neu draethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lwybrau sy'n cael eu hyrwyddo gan Gyngor Gwynedd, y Parc Cenedlaethol a mudiadau cymunedol gan gynnwys y Cynghorau Cymuned.
- Lwybrau sy'n llai tebygol o fod yn addas ar gyfer eu datblygu i fod yn llwybrau "Teithio Llesol".

### Categori 3

3

Llwybrau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml yw'r rhain, ond sydd er hynny yn ffurfio cysylltiadau rhwng llwybrau yng nghategoriâu 1 a 2. Maent yn llwybrau sydd a'r potensial i'w defnyddio i annog cerdded rhwng cymunedau neud i ffurfio rhan o daith y gellir ei hyrwyddo yn y dyfodol.

#### **Categori 4**

Llwybrau heb unrhyw ddefnydd na photensial amlwg lle ceir dewis amgen cyfagos o lwybrau mewn categorïau uwch. Fel arfer nid oes iddynt fawr ddim potensial i greu cysylltiadau defnyddiol nac i ffurfio rhan o daith i'w hyrwyddo. Maent hefyd yn cynnwys llwybrau sydd ag amheuaeth ynglŷn â'u statws a hynny'n annhebygol o gael ei ddatrys.

Mae'r holiadur yn rhan o'r gwaith rhagbaratoi ar gyfer adolygiad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, sy'n ofynnol i'r Cyngor ei baratoi yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Mynediad 2000. Bydd yr holiadur yma yn cynorthwyo i greu darlun o anghenion mynediad trigolion Gwynedd er mwyn gallu cynllunio sut i wella a chynnal y rhwydwaith Hawliau Tramwy yng Ngwynedd. Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi canlyniadau'r holiadur.

## 2. Methodoleg

Er mwyn canfod barn trigolion Gwynedd ar anghenion mynediad er mwyn gallu bwydo i mewn i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, defnyddiwyd holiadur fel dull casglu gwybodaeth.

Mae'r holiadur yma yn seiliedig ar arolwg hamdden awer agored Cymru gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Agorwyd y cyfnod ymateb i'r holiadur ar yr 10fed o Orffennaf hyd at 1af o Fedi 2017.

Fe osodwyd holiadur digidol ar dudalen 'Dweud eich dweud', sef safle ymgynghoriadau ar wefan y Cyngor, er mwyn casglu barn y cyhoedd cyffredinol.

Darparwyd copïau papur o'r holiadur ym mhob un o Siopau Gwynedd, ynghyd a'r llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ar draws y sir yn ogystal.

Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo trwy'r dudalen 'Dweud eich dweud', a hefyd trwy gyfryngau cymdeithasol y Cyngor, sef Facebook a Thrydar. Roedd yr holiadur hefyd yn cael ei hybu gan Parc Cenedlaethol Eryri.

Derbyniwyd ymatebion drwy'r post a drwy holiaduron ar-lein.

### 3. Ymatebion i'r holiaduron


Bydd y rhan yma o'r adroddiad yn dadansoddi ymatebion i'r holiaduron.

#### 3.01 Sut derbyniwyd ymatebion?

Derbyniwyd cyfanswm o 1,386 o ymatebion dilys i'r holiadur.

Dengys yn *Graff001* rhaniad ffurf ateb yr holiaduron. Gwelir fod y nifer helaeth, sef 97.1% (Nifer=1,346) o'r ymatebion wedi cael eu llenwi ar-lein. Tra bod niferoedd ateb papur, 2.9% (N=40) yn isel iawn o gymharu.

*Graff001*



## Eich defnydd o Hawliau Tramwy

### 3.02 Cwestiwn 1. Pa mor aml ydych chi'n defnyddio hawliau tramwy ar gyfer rhai o'r gweithgareddau isod?

Gweler o'r tabl isod mai'r fath o weithgaredd fwyaf poblogaidd i'w wneud ar gyfer defnyddio hawliau tramwy yw cerdded - gyda bron i hanner (43.6%) o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn cerdded bob dydd, a bron i un o bob pump (18.0%) yn nodi eu bod yn cerdded dwywaith yr wythnos. Yr ail weithgaredd fwyaf poblogaidd yw beicio - ond mae pobl yn gwneud hyn yn llai aml na cherdded (ychydig dros 25% yn ei wneud o leiaf un waith yr wythnos). Mae niferoedd sydd yn marchogaeth yn isel iawn i gymharu, bron i 15% yn ei wneud o leiaf un waith yr wythnos.

Tabl001

|                | Bob dydd | Dwywaith yr wythnos | Wythnosol | Misol | Weithiau | Byth  | Dim ateb |
|----------------|----------|---------------------|-----------|-------|----------|-------|----------|
| Cerdded        | 43.6%    | 18.0%               | 18.2%     | 6.8%  | 6.9%     | 2.0%  | 4.5%     |
| Beicio         | 5.3%     | 9.7%                | 11.5%     | 9.7%  | 16.2%    | 18.0% | 29.6%    |
| Marchogaeth    | 6.3%     | 4.2%                | 4.3%      | 0.8%  | 4.6%     | 43.7% | 36.1%    |
| Ceffyl a throl | 0.6%     | 0.2%                | 0.6%      | 0.5%  | 2.0%     | 50.6% | 45.4%    |
| Arall          | 2.4%     | 2.5%                | 2.1%      | 0.8%  | 2.3%     | 38.5% | 51.4%    |

### 3.03 Cwestiwn 2. Os arall, nodwch pa weithgaredd?

Rhai gweithgareddau oedd yn cael eu nodi ar wahân i'r uchod oedd rhedeg, caiacio / canwio a dreifio.

### 3.04 Cwestiwn 3. Os ydych wedi nodi 'Byth' ar gyfer unrhyw un o'r uchod, beth yw eich prif reswm / resymau dros beidio defnyddio Hawliau Tramwy?


Gweler o'r tabl isod mai'r rheswm mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei rhoi am beidio ag defnyddio hawliau tramwy yw bod ddim digon o wybodaeth amdanynt (8.3%, N=115). Gweler yr holl ymatebion yn *Nhabl002*.

Tabl002

|                                | Nifer | Canran |
|--------------------------------|-------|--------|
| Anabledd                       | 37    | 2.7    |
| Oedran                         | 34    | 2.5    |
| Iechyd gwael                   | 25    | 1.8    |
| Dim digon o wybodaeth amdanynt | 115   | 8.3    |
| Rhy brysur                     | 65    | 4.7    |

|   |     |      |
|---|-----|------|
| Tywydd gwael  | 26  | 1.9  |
| Arall   | 415 | 29.9 |
| <i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod hwn yn gwestiwn aml-ddewis</i> |     |      |

I'r rhai a nododd 'Arall', sef 29.9% (N=415) y rheswm a roddwyd oedd eu bod ddim yn berchen ar un ai ceffyl a throl neu feic.




### 3.05 Cwestiwn 4. Faint o amser ydych chi'n treulio yn gwneud y gweithgareddau yma ar un tro?

Yr ateb fwyaf cyffredin i'r cwestiwn yma oedd 'mwy na dwy awr' gyda bron i hanner (47.0%, N= 652) o'r ymatebwyr yn nodi hyn. Roedd ychydig dros draean o'r ymatebwyr (36.9%, N=512) yn nodi eu bod yn gwneud y gweithgareddau am awr i ddwy awr, gyda bron i un o bob pump o'r ymatebwyr (17.4%, N=241) yn nodi eu bod yn gwneud y gweithgareddau am hanner awr i awr.

Tabl003

|   | Nifer | Canran |
|---|-------|--------|
| Llai na hanner awr  | 62    | 4.5    |
| Hanner awr i awr  | 241   | 17.4   |
| Awr i ddwy awr  | 512   | 36.9   |
| Mwy na dwy awr  | 652   | 47.0   |
| Arall   | 39    | 2.8    |
| <i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod hwn yn gwestiwn aml-ddewis</i> |       |        |

O'r rhai oedd wedi nodi 'arall' roedd yr atebion yn amrywio o nodi eu bod yn gwneud gweithgareddau trwy'r dydd i nodi bod yr amseroedd mae nhw'n gwneud gweithgareddau yn amrywio gan ddibynnu ar y gweithgaredd a'r sefyllfa.



### 3.06 Cwestiwn 5. Beth yw eich prif resymau am ddefnyddio Hawl Tramwy?


Gweler fod bron i dri chwarter o'r ymatebwyr yn defnyddio hawliau tramwy i gadw'n heini (71.7%, N=994) ac oherwydd diddordeb (71.6%, N=993). Mae nifer fawr hefyd yn eu defnyddio ar gyfer gwyllo bywyd gwyllt / mwynhau'r dirwedd (59.1%, N=819).

Tabl004

|   | Nifer | Canran |
|---|-------|--------|
| Mynd a'r ci am dro  | 538   | 38.8   |
| I gadw'n heini (e.e. cerdded, rhedeg)                                       | 994   | 71.7   |
| Diddordeb (e.e. cerdded / marchogaeth fel diddordeb)                        | 993   | 71.6   |
| Gwyllo bywyd gwyllt / mwynhau'r dirwedd                                     | 819   | 59.1   |
| I gael mynd at gyfleusterau (e.e. siop, ysgol, eglwys, gwaith)              | 412   | 29.7   |
| Cymryd rhan mewn gweithgareddau   | 382   | 27.6   |
| Arall   | 71    | 5.1    |
| <b>Cyfanswm</b>   |       |        |
| <i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod hwn yn gwestiwn aml-ddewis</i> |       |        |

O'r rhai oedd yn nodi 'arall', roedd rhesymau yn cynnwys pethau fel gweithio / mynd i'r gwaith a chael i ffwrdd o lonydd.





### 3.07 Cwestiwn 6. Pa rai o'r dulliau yma o fynd i gefn gwlad ydy'r gorau gennyh chi?


Roedd y cwestiwn yma yn gofyn i ymatebwyr rancio'r dulliau o 1 i 8. Gweler mai'r dulliau sydd yn cael eu rancio yn uchaf yw llwybrau cyhoeddus a thiroedd sydd â mynediad agored. Tra'r rhai sy'n rancio yn isaf yw tiroedd yr ymddiriedolaeth genedlaethol, traethau a thiroedd coedwigaeth.

Tabl005

|   | Ranc 1     | Ranc 2     | Ranc 3     | Ranc 4     | Ranc 5     | Ranc 6     | Ranc 7     | Ranc 8     |
|---|------------|------------|------------|------------|------------|------------|------------|------------|
| Llwybrau Cyhoeddus  | 555 (40.0) | 286 (20.6) | 130 (9.4)  | 77 (5.6)   | 45 (3.2)   | 58 (4.2)   | 31 (2.2)   | 41 (3.0)   |
| Hawliau Tramwy eraill (e.e. Llwybrau Marchogaeth neu gilffyrdd) | 139 (10.0) | 254 (18.3) | 159 (11.5) | 140 (10.1) | 111 (8.0)  | 117 (8.4)  | 94 (6.8)   | 122 (8.8)  |
| Llwybrau sydd â hawl tramwyo (e.e. Rhwydwaith Lonydd Glas)      | 33 (2.4)   | 161 (11.6) | 200 (14.4) | 147 (10.6) | 148 (10.7) | 143 (10.3) | 168 (12.1) | 128 (9.2)  |
| Tiroedd Coedwigaeth   | 35 (2.5)   | 85 (6.1)   | 142 (10.2) | 175 (12.6) | 150 (10.8) | 212 (15.3) | 198 (14.3) | 129 (9.3)  |
| Tiroedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol                         | 10 (0.7)   | 61 (4.4)   | 111 (8.0)  | 147 (10.6) | 180 (13.0) | 185 (13.3) | 218 (15.7) | 212 (15.3) |
| Ffyrdd bach cefn gwlad  | 49 (3.5)   | 126 (9.1)  | 190 (13.7) | 193 (13.9) | 205 (14.8) | 143 (10.3) | 155 (11.2) | 123 (8.9)  |

|   |            |            |            |            |            |           |           |           |
|---|------------|------------|------------|------------|------------|-----------|-----------|-----------|
| Traethau  | 71 (5.1)   | 186 (13.4) | 210 (15.2) | 196 (14.1) | 163 (11.8) | 135 (9.7) | 107 (7.7) | 131 (9.5) |
| <b>Cat 1 : cyfanswm hyd archwilwyd / total length surveyd - 150km</b><br><b>% y categori / % of category = 30%</b> |   |
|--|---|
| <b><i>Math o broblem / Issue Type</i></b>  | <b><i>Nifer o broblemau / No Issues</i></b> |
| Arwyddion ochr lon ar goll / wedi torri<br>Missing / Damaged Roadside Sign   | 24  |
| Cyfeirbyst ar goll / wedi torri<br>Missing / Damaged Waymark   | 23  |
| Camfa ysgol / Ladder stile   | 1   |
| Camfa un neu ddwy step<br>Stile one step or two step   | 1   |
| Camfa garreg / Stone stile   | 0   |
| Giât fochyn /Kissing gate  | 1   |
| Giat / Gate < 1.2m   | 0   |
| Giat /Gate 1.2m - 2m   | 2   |
| Giat / Gate >  | 0   |
| Grisiu / Steps   | 2   |
| Pontydd / Bridge < 2m  | 2   |
| Pontydd / Bridge 2m - 5m   | 0   |
| Pontydd / Bridge > 5m  | 3   |
| Wyneb mewn cyflwr gwael / Poor Surface   | 36  |
| Gordyfiant o'r ochr / Overgrowth Sides   | 20  |
| Tyfiant ar y wyneb / Surface Vegetation  | 6   |
| Wal neu ffens ar draws y llwybr<br>Cross Path Wall / Fence   | 8   |
| Planhigion ymledol / Invasive  | 5   |
| Fallen Tree  | 2   |
| Alongside Path   | 6   |
| Defnydd tir / chwarel / coedwigaeth<br>Land Use / Quarry / Forestry  | 0   |
| Arall Other  | 10  |

| <b>Cat 2 : cyfanswm hyd archwilwyd / total length surveyed - 344 km</b>    |   |
|--|---|
| <b>% y categori / % of category = 31%</b>                                  |   |
| <b><i>Math o broblem / Issue Type</i></b>                                  | <b><i>Nifer o broblemau / No Issues</i></b> |
| Arwyddion ochr lon ar goll / wedi torri<br>Missing / Damaged Roadside Sign | 22  |
| Cyfeir byst ar goll / wedi torri<br>Missing / Damaged Waymark              | 23  |
| Camfa ysgol / Ladder stile   | 4   |
| Camfa un neu ddwy step<br>Stile one step or two step                       | 8   |
| Camfa garreg / Stone stile   | 1   |
| Giât fochyn /Kissing gate  | 3   |
| Giat / Gate < 1.2m   | 3   |
| Giat /Gate 1.2m - 2m   | 3   |
| Giat / Gate > 2m   | 7   |
| Grisiau / Steps  | 1   |
| Pontydd / Bridge < 2m  | 10  |
| Pontydd / Bridge 2m - 5m   | 3   |
| Pontydd / Bridge > 5m  | 4   |
| Wyneb mewn cyflwr gwael / Poor Surface                                     | 69  |
| Gordyfiant o'r ochr / Overgrowth Sides                                     | 14  |
| Tyfiant ar y wyneb / Surface Vegetation                                    | 22  |
| Wal neu ffens ar draws y llwybr<br>Cross Path Wall / Fence                 | 35  |
| Planhigion ymledol / Invasive  | 3   |
| Coed wedi cwmpo / Fallen Tree  | 29  |
| Wal neu ffens wrth ochr y llwybr<br>Wall or fence alongside Path           | 31  |
| Defnydd tir / chwarel / coedwigaeth<br>Land Use / Quarry / Forestry        | 0   |
| Arall Other  | 10  |



**Cat 3 : cyfanswm hyd archwilwyd / total length surveyed - 527 km**  
**% y categori / % of category = 24%**

| <b><i>Math o broblem / Issue Type</i></b>                                  | <b><i>Nifer o broblemau / No Issues</i></b> |
|--|---|
| Arwyddion ochr lon ar goll / wedi torri<br>Missing / Damaged Roadside Sign | 86  |
| Cyfeirbyst ar goll / wedi torri<br>Missing / Damaged Waymark               | 35  |
| Camfa ysgol / Ladder stile   | 19  |
| Camfa un neu ddwy step<br>Stile one step or two step                       | 26  |
| Camfa garreg / Stone stile   | 1   |
| Giât fochyn /Kissing gate  | 17  |
| Giat / Gate < 1.2m   | 24  |
| Giat /Gate 1.2m - 2m   | 21  |
| Giat / Gate > 2m   | 10  |
| Grisiau / steps  | 1   |
| Pontydd / Bridge < 2m  | 31  |
| Pontydd / Bridge 2m - 5m   | 1   |
| Pontydd / Bridge > 5m  | 1   |
| Wyneb mewn cyflwr gwael / Poor Surface                                     | 46  |
| Gordyfiant o'r ochr / Overgrowth Sides                                     | 27  |
| Tyfiant ar y wyneb / Surface Vegetation                                    | 34  |
| Wal neu ffens ar draws y llwybr<br>Cross Path Wall / Fence                 | 71  |
| Planhigion ymledol / Invasive  | 1   |
| Coed wedi cwmpo / Fallen Tree  | 22  |
| Wal neu ffens wrth ochr y llwybr<br>Wal o'r fende alongside Path           | 7   |
| Defnydd tir / chwarel / coedwigaeth<br>Land Use / Quarry / Forsetry        | 17  |
| Arall Other  | 29  |

**Cat 4 : cyfanswm hyd archwilwyd / total length surveyed - 344 km**  
**% y category / % of category = 31%**

| <b><i>Math o broblem / Issue Type</i></b>                                  | <b><i>Nifer o broblemau / No Issues</i></b> |
|--|---|
| Arwyddion ochr lon ar goll / wedi torri<br>Missing / Damaged Roadside Sign | 22  |
| Cyfeirbyst ar goll / wedi torri<br>Missing / Damaged Waymark               | 23  |
| Camfa ysgol / Ladder stile   | 4   |
| Camfa un neu ddwy step<br>Stile one step or two step                       | 8   |
| Camfa garrag / Stone stile   | 1   |
| Giât fochyn /Kissing gate  | 3   |
| Giat / Gate < 1.2m   | 3   |
| Giat /Gate 1.2m - 2m   | 3   |
| Giat / Gate > 2m   | 7   |
| Grisiau / steps  | 1   |
| Pontydd / Bridge < 2m  | 10  |
| Pontydd / Bridge 2m - 5m   | 3   |
| Pontydd / Bridge > 5m  | 4   |
| Wyneb mewn cyflwr gwael / Poor Surface                                     | 102   |
| Gordyfiant o'r ochr / Overgrowth Sides                                     | 14  |
| Tyfiant ar y wyneb / Surface Vegetation                                    | 22  |
| Wal neu ffens ar draws y llwybr<br>Cross Path Wall / Fence                 | 35  |
| Planhigion ymledol / Invasive  | 3   |
| Coed wedi cwmpo / fallen Tree  | 29  |
| Wal neu ffens wrth ochr y llwybr Alongside Path                            | 31  |
| Defnydd tir / chwarel / coedwigaeth<br>Land Use / Quarry / Forestry        | 0   |
| Arall / Other  | 10  |



#### Sylwadfau o'r holiadur

- Dywedodd 61.2 % eu bod wedi dod o draws problem wrth ddefnyddio hawliau tramwy.
- Roedd 35.6% yn dweud nad oeddyn wedi wynebu problem .
- O'r rhai oedd wedi wynebu problem y broblem mwyaf oedd
  - llwybr wedi ei rwystro'n fwriadol 35.6%
  - diffug arwyddion 29.3%
  - gordyfiant / coed wedi disgyn 28%

# Holiadur Hawliau Tramwy

## Amdanoch Chi

### Cyflwyniad

Mae'r adroddiad yma wedi cael ei ddarparu fel atodiad i'r adroddiad sy'n dadansoddi ymatebion holiadur hawliau tramwy er mwyn gweld proffil y pobl a ymatebodd i'r holiadur.

### Canlyniadau

#### Rhyw

Gweler o'r tabl isod fod 40.6% o'r ymatebwyr yn fenyw ac 36.4% o'r ymatebwyr yn fechgyn.

|                 | Nifer        | Canran       |
|-----------------|--------------|--------------|
| Gwryw           | 505          | 36.4         |
| Benyw           | 563          | 40.6         |
| Arall           | 9            | 0.6          |
| Dim ateb        | 309          | 22.3         |
| <b>Cyfanswm</b> | <b>1,386</b> | <b>100.0</b> |


#### Oedran

Roedd bron i 1 o bob 5 o'r ymatebwyr yn y grŵp oedran 50-59 oed, gyda 18.8% (N=261) o'r ymatebwyr yn 60-69 oed. Roedd dros hanner yr ymatebwyr (54.5%, N=756) yn 40 oed neu hŷn.

|                             | Nifer        | Canran       |
|-----------------------------|--------------|--------------|
| O dan 18                    | 6            | 0.4          |
| 18-29                       | 68           | 4.9          |
| 30-39                       | 151          | 10.9         |
| 40-49                       | 230          | 16.6         |
| 50-59                       | 265          | 19.1         |
| 60-69                       | 261          | 18.8         |
| 70 neu hŷn                  | 93           | 6.7          |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 13           | 0.9          |
| Dim ateb                    | 299          | 21.6         |
| <b>Cyfanswm</b>             | <b>1,386</b> | <b>100.0</b> |

## Lleoliad

O'r 1,386, dim ond 849 a nododd lle reddent yn byw. O'r 849 hynny, gweler o'r map isod fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn byw yng Ngwynedd (85%).



### Hunaniaeth

Roedd dros traean o'r ymatebwyr yn adnabod eu hunain fel Cymro / Cymraes (33.6%, N=466).

|                                       | <b>Nifer</b> | <b>Canran</b> |
|---------------------------------------|--------------|---------------|
| Cymro / Cymraes                       | 466          | 33.6          |
| Sais / Saesnes                        | 158          | 11.4          |
| Albanwr / Albanes                     | 10           | 0.7           |
| Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon | 1            | 0.1           |
| Prydeiniwr / Prydeines                | 381          | 27.5          |
| Arall                                 | 43           | 3.1           |
| Dim ateb                              | 327          | 23.6          |
| <b>Cyfanswm</b>                       | <b>1,386</b> | <b>100.0</b>  |

### Ethnigrwydd

Roedd yr rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn wyn (71.6%, N= 993).

|                                | <b>Nifer</b> | <b>Canran</b> |
|--------------------------------|--------------|---------------|
| Gwyn                           | 993          | 71.6          |
| Cymysg / Sawl grŵp ethnig      | 12           | 0.9           |
| Asiaidd                        | 7            | 0.5           |
| Du / Affricanaidd / Caribiaidd | 1            | 0.1           |
| Arall                          | 17           | 1.2           |
| Dim ateb                       | 356          | 25.7          |
| <b>Cyfanswm</b>                | <b>1,386</b> | <b>100.0</b>  |

### Anabledd

Nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr eu bod ddim yn ystyried eu hunain i fod efo anabledd (54.5%, N=894), tra roedd 5.8% (N=81) yn nodi eu bod hefo anabledd.

|                             | <b>Nifer</b> | <b>Canran</b> |
|-----------------------------|--------------|---------------|
| Ydw                         | 81           | 5.8           |
| Nac ydw                     | 894          | 64.5          |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 66           | 4.8           |
| Dim ateb                    | 345          | 24.9          |
| <b>Cyfanswm</b>             | <b>1,386</b> | <b>100.0</b>  |

# Eitem 6

|                      |   |
|----------------------|---|
| <b>PWYLLGOR</b>      | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU   |
| <b>DYDDIAD</b>       | 7 Rhagfyr 2017  |
| <b>TEITL</b>         | <b>CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY – DIWEDDARIAD</b> |
| <b>AELOD CABINET</b> | Cyng. Dafydd Meurig   |
| <b>PWRPAS</b>        | Codi ymwybyddiaeth o'r cyd-destun a rhoi diweddariad  |

## 1 CEFNDIR A PHWRPAS

- 1.1 O dan ddeddfwriaeth cynllunio, y 'cynllun datblygu' sydd yn cynnwys polisiau cynllunio ar gyfer pob ardal. Cafodd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ei fabwysiadu ar 31 Gorffennaf 2017. Mae o'n berthnasol i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd (ddim yn cynnwys ardal y Parc) ac i Ynys Môn. Y Cynllun yw'r prif ystyriaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.
- 1.2 Mae'r Cynllun yn darparu ystod o bolisiau, ynghyd â dynodiadau tir ar gyfer y prif ddefnyddiau tir fel tai, cyflogaeth a manwerthu. Bydd y Cynllun felly yn:
- Arwain yr Awdurdodau Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau rhesymegol a chyson ar geisiadau cynllunio drwy ddarparu fframwaith polisi sydd yn cwrdd ag anghenion ein cymunedau ac sydd yn gyson â pholisi cenedlaethol, ac
  - Arwain a hwyluso datblygiad i leoliadau priodol hyd at 2026.
- 1.3 Mae'r Cynllun yn cynnwys polisiau i'r Cynghorau allu gwneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar gynigion datblygu. Er hynny, ni all roi'r holl arweiniad manwl sydd ei angen ar swyddogion, a darpar ymgeiswyr i lywio'r cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r arweiniad manwl yma mae angen paratoi ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynllun.
- 1.4 Pwrpas y papur yma ydi codi ymwybyddiaeth Aelodau'r Pwyllgor Craffu a rhoi diweddariad iddynt am y canlynol:
- i. beth ydi Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA);
  - ii. sail polisi cynllunio ar gyfer y Canllaw Cynllunio Atodol Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy, sy'n cynnwys rhoi arweiniad ar sut i ddefnyddio Polisi PS 1;
  - iii. y broses gyffredinol i baratoi'r CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy
  - iv. amserlen drafft i baratoi'r CCA;
  - v. braslun rhagarweiniol o gynnwys y CCA.



## 2 BETH YDI CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL?

- 2.1 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn rhoi arweiniad manylach ar sut ddefnyddir polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd mewn amgylchiadau neu ardaloedd penodol.
- 2.2 Nid yw'r CCA yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Nid yw CCA yn cael eu harchwilio'n annibynnol, ond mae'n **rhaidd** iddynt fod yn gyson efo'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (y Cynllun) a pholisi cynllunio cenedlaethol. Mae'r CCA yn croesgyfeirio at bolisiau a / neu gynigion priodol yn y Cynllun. **Ni ddylai CCA gynnwys polisiau newydd.** Wrth eu paratoi mae'n rhaid ystyried yr angen am Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
- 2.3 Gall CCA wneud y canlynol:
- Rhoi canllawiau pwysig sy'n ymhelaethu ar bolisiau sy'n seiliedig ar bynciau er mwyn helpu i weithredu'r Cynllun (e.e. effaith ar les yr iaith Gymraeg, tai marchnad leol).
  - Ymdrin â manylion a chanllawiau/trothwyon rhifol (e.e. safonau ar gyfer parcio ceir, trothwy ar gyfer ymrwymadau cynllunio). Gall manylion fformiwla mewn CCA newid er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn parhau i fod yn gyfredol ac er mwyn hwyluso hyblygrwydd.
  - Rhoi canllawiau manwl ychwanegol ar y math o ddatblygiad a ddisgwylir ar safle a ddynodwyd ar gyfer ei datblygu yn y Cynllun. Gallai hyn fod ar ffurf briff datblygu neu brif gynllun.
- 2.4 Ar sail yr uchod, dim ond polisiau a chynigion y Cynllun sydd â statws arbennig (blaenoriaeth) wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio. Fodd bynnag, ar ôl eu mabwysiadu a chyn belled eu bod wedi bod drwy'r broses a ddisgrifir isod yn rhan 4, bydd CCA yn cael eu defnyddio fel ystyriaeth berthnasol wrth ddod i benderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio.

## 3 BETH YDI'R SAIL POLISI AR GYFER CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY?

- 3.1 Mae gan bolisiau amrywiol y Cynllun rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi cynnal a chreu cymunedau trefol a gwledig nodedig a chynaliadwy, ac felly sicrhau bod y cynghorau yn cwrdd â'u dyletswydd statudol i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy:
- i. sicrhau y cyflawnir datblygiadau priodol yn y man cywir ar yr adeg gywir;
  - ii. sicrhau bod digon o dir ar gael i ddarparu cartrefi a chyfleoedd gwaith i bobl leol, gan helpu cynnal gwasanaethau trefol a gwledig;
  - iii. sicrhau bod y cynllun yn rhoi fframwaith bolisi cynllunio defnydd tir sy'n cyfrannu at warchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg;
  - iv. rhoi fframwaith i ymateb i'r heriau sy'n codi yn sgil newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, drwy gynnwys yr angen i gynhyrchu ynni adnewyddadwy;
  - v. gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol a diogelu cefn gwlad a mannau agored.

- 3.2 At ei gilydd, maent yn cefnogi cymunedau fod yn gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn amgylcheddol. Mae'r diagram nesaf yn rhoi darlun syml o'r elfennau a gredir sy'n hanfodol ar gyfer cymunedau nodedig a chynaliadwy.

**Diagram 1: Elfennau hanfodol ar gyfer cymuned nodedig a chynaliadwy**



- 3.3 O ran yr iaith Gymraeg, mae datblygiad cynaliadwy yn ymwneud â hyrwyddo amgylchiadau o fewn cymunedau sy'n bwysig i gonglfeini cynllunio ieithyddol, e.e. trosglwyddo'r iaith yn y cartref (neu gymdeithasoli iaith yn y teulu), a darparu ac atgynhyrchu'r cyd-destun cymdeithasol angenrheidiol i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'r gwead cymdeithasol arferol.
- 3.4 O gofio'r gofynion bod CCA yn gyson efo'r Cynllun a pholisi cynllunio cenedlaethol, dyma gopi isod o amcan strategol y Cynllun sy'n ymwneud â lles yr iaith Gymraeg a diwylliant. Rhoddir copi o Bolisi PS 1 hefyd, sy'n rhoi'r fframwaith bolisi lleol ynglŷn ag ystyried effaith datblygiad ar les yr iaith Gymraeg:

### Amcanion strategol

- Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned.
- Sicrhau bod datblygiad yn ardal y Cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.

### **POLISI PS 1 YR IAITH GYMRAEG A'R DIWYLLIANT CYMREIG**

***Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy:***

1. ***Ofyn am Ddatganiad iaith Gymraeg fydd yn dweud sut bydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pan fydd y datblygiad arfaethedig yn perthyn i un o'r categorïau canlynol:***
  - a. ***Datblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m. sg. neu fwy; neu***
  - b. ***Datblygiad preswyl a fydd un ai ar ben ei hun neu yn gronol yn darparu mwy na'r ddarpariaeth tai dangosol a osodwyd ar gyfer yr anheddle ym Mholisi TAI 1 - TAI 6; neu***
  - c. ***Datblygiad preswyl o 5 o unedau tai neu fwy ar safleoedd a ddynodwyd neu safleoedd ar hap du mewn i ffiniau datblygu nad yw'n mynd i'r afael â thystiolaeth o angen a galw am dai a gofnodir mewn Asesiad Marchnad Tai a ffynonellau tystiolaeth leol berthnasol eraill.***
2. ***Ofyn am Asesiad Effaith iaith Gymraeg, a fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pan fydd y datblygiad arfaethedig ar safle ar hap annisgwyl ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n golygu llif arwyddocaol o weithlu;***
3. ***Wrthod cynigion a fyddai'n achosi niwed o sylwedd i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned nad allir ei osgoi neu ei liniaru yn foddhaol trwy ddefnyddio mecanwaith cynllunio priodol;***
4. ***Gofyn am Gynllun Arwyddion dwyieithog i ymdrin â holl arwyddion gweithredol yn y parth cyhoeddus sy'n cael eu cynnwys mewn cais cynllunio gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes;***
5. ***Gosod disgwyliad y bydd enwau Cymraeg yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd.***

### **4 BETH YDI'R BROSES I BARATOI, CRAFFU A MABWYSIADU'R CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL?**

#### **4.1 Dyma drosolwg o'r trefniadau:**

- i. Wrth baratoi'r CCA, byddwn yn rhoi sylw i'r adborth a gawsom pan ddaru ni gysylltu gydag unigolion a mudiadau ynglyn â'r CCA cyfredol yn ystod Mehefin – Awst 2016.
- ii. Wrth baratoi'r CCA, byddwn yn rhoi sylw i enghreifftiau o CCA a fabwysiadwyd gan Awdurdodau Cynllunio eraill.

- iii. Wrth baratoi'r CCA, byddwn yn cynnwys cydweithwyr rheoli datblygiad a gwasanaethau eraill o fewn y Cynghorau (e.e. Unedau Datblygu Iaith, Uned Ymchwil a Gwybodaeth) a phartneriaid (Menter Iaith Môn, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg).
- iv. Wrth baratoi'r CCA, byddwn yn rhoi ystyriaeth i gynnwys Nodyn Cyngor Technegol 20 (2017), sy'n ystyriaeth cynllunio berthnasol hefyd.
- v. Cyflwyno papurau i Bwyllgorau/ Weithgorau Craffu perthnasol y ddau Gyngor.
- vi. Cyflwyno drafft o'r CCA i'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i'w graffu a derbyn adborth cyn ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.
- vii. Cyhoeddi CCA drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos. Cyhoeddir hysbysiad ar wefan y ddau Gyngor. Byddwn yn gyrru hysbysiad i: Cynghorau Cymuned a Thref y ddwy Sir; Cynghorwyr y ddwy Sir; grwpiau, mudiadau ac unigolion sydd â diddordeb yn y pwnc; Awdurdodau Cynllunio cyfagos; Isadran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru.
- viii. Byddwn yn cyflwyno casgliadau'r proses 'sgrinio' Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol a Rheoliadau Asesiad Cynaliadwyedd i Gyfoeth Naturiol Cymru.
- ix. Byddwn yn ystyried pob sylw a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus cyn paratoi CCA drafft terfynol.
- x. Byddwn yn cyflwyno'r CCA drafft terfynol i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer ei fabwysiadu yn ffurfiol.
- xi. Bydd y CCA a fabwysiedir yn cynnwys datganiad o ymgynghoriad a fydd yn cofnodi trefniadau'r gwaith paratoi a'r ymgynghoriad cyhoeddus ac yn cyfeirio at y newidiadau a gafodd eu gwneud yn sgil yr ymgynghoriad cyhoeddus.
- xii. Byddwn yn gwerthuso effeithiolrwydd y CCA ar y cyd â'r polisi y maent yn ei ategu fel rhan o'r broses fonitro flynyddol o'r Cynllun.

## 5 BETH YDI'R AMSERLEN DRAFFT I BARATOI'R CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY

### 5.1 Dyma'r amserlen drafft:

| Tasg   | Pryd?                      |
|--|----------------------------|
| i. Paratoi'r CCA drafft ymgynghorol  | Hydref 2017– Ionawr 2018   |
| ii. Trafod gyda, a chael barn, Gweithgor Craffu am elfennau o'r CCA  | Rhagfyr 2017 – Ionawr 2018 |
| iii. Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – craffu fersiwn drafft ymgynghorol cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus | 26 Ionawr 2018             |
| iv. Ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos   | Chwefror – Mawrth 2018     |
| v. Ystyried sylwadau, mewn ymgynghoriad efo'r Pwyllgor Craffu  | Ebrill 2018                |
| vi. Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd - mabwysiadu'r CCA  | Mai 2018 <sup>1</sup>      |

<sup>1</sup> Mae'r amserlen terfynol yn dibynnu ar nifer a chwmpas sylwadau a dderbynnir adeg yr ymgynghoriad cyhoeddus.

## **6 BETH YDI'R BRASLUN RHAGARWEINIOL O GYNNWYS Y CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY?**

6.1 Dyma benawdau posib i'r CCA:

### **Rhan 1 – Gwybodaeth Gyffredinol**

- i. Beth ydi cymuned nodedig a chynaliadwy
- ii. Beth all gael ei adeiladu yn lle
- iii. Ystyriaethau cynllunio ar gyfer pob datblygiad perthnasol
- iv. Ystyriaethau cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygiad
- v. Gwybodaeth ychwanegol i'w gyflwyno gyda cais cynllunio

### **Rhan 2 – Gofynion Polisi PS 1**

- vi. Proses paratoi a chyflwyno cais cynllunio
- vii. Diffinio termau Polisi PS 1, e.e. datblygiad mawr, safle ar hap annisgwyl, niwed o sylwedd, mesurau lliniaru
- viii. Fframwaith i baratoi Datganiad Iaith Gymraeg – y gofynion a phwy ddylid ei baratoi
- ix. Fframwaith i baratoi Aseiad Effaith Iaith Gymraeg – y gofynion a phwy ddylid ei baratoi
- x. Mesurau lliniaru neu fesurau gwella posib
- xi. Trefniadau'r Cyngorau i asesu Datganiad Iaith Gymraeg, adroddiad am Aseiad Effaith Iaith Gymraeg - rôl y swyddog achos, rôl yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, rôl yr Uned Gwasanaethau Iaith Cyngor Gwynedd, rôl yr Uned Polisi Strategol Cyngor Sir Ynys Môn a Menter Iaith Môn
- xii. Caniatáu yn ddarostyngedig i amodau neu ymrwymadau cynllunio, neu wrthod cais cynllunio
- xiii. Trefniadau monitro

## **7 ARGYMHELLIAD**

7.1 Nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

|          |   |
|----------|---|
| Pwyllgor | Pwyllgor Craffu Cymunedau   |
| Dyddiad  | 7 Rhagfyr 2017  |
| Teitl    | Canllaw Cynllunio Atodol – Cynnal a Chreu Cymunedau Unigryw a Chynaliadwy |
| Pwrpas   | Mabwysiadu Brîff a Dewis Aelodau i'r Gweithgor Craffu                     |
| Awdur    | Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd                          |

**Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau :**

- **Rhoi ystyriaeth fanwl i'r Brîff drafft amgaeedig**
- **Cytuno ar Brîff ar gyfer yr Ymchwiliad Craffu**
- **Penodi Aelodau ar gyfer y Gweithgor Craffu**

## Cynllunio a'r iaith Gymraeg (C10) DRAFFT DIWYGIEDIG

|   |  |
|---|--|
| A | <p><u>Beth yw'r mater sy'n cael ei ystyried fel eitem craffu?</u></p> <p>Yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 28 Gorffennaf 2017, fe fabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.</p> <p>Yn yr un cyfarfod, penderfynwyd rhoi blaenoriaeth i baratoi Canllaw Cynllunio Atodol Cynnal a Chreu Cymunedau Unigryw a Chynaliadwy er mwyn rhoi arweiniad i gefnogi gweithredu Polisi PS 1 o'r Cynllun. Nid dogfen bolisi ydi'r CCA ond yn hytrach dogfen sydd yn rhoi cig ar asgwrn Polisi er mwyn rhoi arweiniad ar sut mae'r Cyngor (a Chyngor Sir Ynys Môn) yn bwriadu gweithredu'r Polisi.</p> <p>Cynhaliwyd Sesiwn Briffio gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd gydag Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r Pwyllgor Iaith ar 22 Medi 2017. Penderfynodd Fforwm Craffu ar 19 Hydref 2017 i gynnal Ymchwiliad Craffu.</p> <p>Ers i'r Fforwm Craffu wneud y penderfyniad mae Nodyn Cyngor Technegol 20 (2017) wedi cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, sy'n disodli'r fersiwn cynharach (2013). Mae'r NCT yn ystyriaeth cynllunio berthnasol.</p> |
| B | <p><u>Nod yr Ymchwiliad</u></p> <p>Mae dau ran iddo:</p> <p><u>Rhan 1 (hwn yn benodol i'r CCA drafft)</u></p> <ul style="list-style-type: none"><li>- Sicrhau bod proses ymgynghori am y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) drafft yn un gynhwysol;</li><li>- Craffu fframwaith drafft ar gyfer paratoi Datganiad Iaith Gymraeg a fframwaith drafft ar gyfer paratoi Asesiad Effaith Iaith Gymraeg;</li><li>- Craffu'r sut y bwriedir gweithredu ar y CCA yng nghyd-destun gofynion y TAN 20 newydd;</li><li>- Derbynn trosolwg o'r sylwadau a dderbynnir gan y cyhoedd adeg ymgynghori cyhoeddus am y CCA drafft er mwyn cyflwyno barn i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd cyn i'r CCA terfynol gael ei fabwysiadu.</li></ul> <p><u>Rhan 2 (hwn yn benodol i'r cyd-destun polisi/cyngor cenedlaethol)</u></p> <ul style="list-style-type: none"><li>- Casglu tystiolaeth i lunio syniadau ac awgrymiadau ar gyfer ystyriaeth Aelod Cabinet Amgylchedd Cyngor Gwynedd i ddylanwadu ar bolisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn y dyfodol.</li></ul>             |
| C | <p><u>Cyd-destun</u></p> <p><u>Rhan 1 (hwn yn benodol i'r CCA drafft)</u></p> <ul style="list-style-type: none"><li>- Gofynion polisi cynllunio cenedlaethol o ran paratoi CCA a'u cynnwys</li><li>- Gofynion polisiâu perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, gan gynnwys Polisi PS 1, i greu amodau a fydd yn caniatáu i gymunedau cynaliadwy ffynnu</li></ul>  |

|    |   |
|----|---|
|    | <ul style="list-style-type: none"> <li>- Sylwadau perthnasol o'r ymgynghoriad cyhoeddus am y CCA drafft ymgynghorol.</li> </ul> <p><u>Rhan 2 (hwn yn benodol i'r cyd-destun polisi/cyngor cenedlaethol)</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Rhan 4 o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9 Tachwedd 2016) a Nodyn Cyngor Technegol 20 (2017)</li> <li>- Gofynion deddfwriaethol cynllunio perthnasol o safbwynt yr Iaith Gymraeg</li> <li>- Gofynion deddfwriaethol perthnasol eraill a strategaethau perthnasol cenedlaethol a lleol o safbwynt y Gymraeg</li> </ul>   |
| CH | <p><u>Arfer Da a Gwersi i'w Dysgu</u></p> <p><u>Rhan 1 (hwn yn benodol i'r CCA drafft)</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- dim yn fater uniongyrchol i'r Gweithgor. Bydd yr adroddiad sy'n cyflwyno'r fframweithiau drafft yn rhoi adborth i'r Gweithgor am gasgliadau'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a Gwasanaethau Iaith Gymraeg am arfer da edrychwyd arno wrth baratoi'r fframweithiau.</li> </ul> <p><u>Rhan 2 (hwn yn benodol i'r cyd-destun polisi/cyngor cenedlaethol)</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ystyried beth ydi rôl y system cynllunio defnydd tir yng Nghymru i ddylanwadu ar ddyfodol y Gymraeg</li> <li>- Ystyried beth ydi rôl systemau cynllunio defnydd tir mewn gwledydd ac ardaloedd eraill i ddylanwadu ar ddyfodol iaith.</li> <li>- Nodi rhwystrau ac arfer da</li> </ul> |
| D  | <p><u>Gwybodaeth a Chasglu Tystiolaeth</u></p> <p><u>Rhan 1 (hwn yn benodol i'r CCA drafft) (er mwyn paratoi fframweithiau ar gyfer paratoi Datganiad Iaith Gymraeg ac Aseiad Effaith Iaith Gymraeg i'w cyflwyno i'r Gweithgor Craffu)</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd – Gwynedd a Môn)</li> <li>- Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd</li> <li>- Comisiynydd y Gymraeg</li> <li>- Isadran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru</li> </ul> <p><u>Rhan 2 (hwn yn benodol i'r cyd-destun polisi/cyngor cenedlaethol)</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Swyddog Polisi Cynllunio Llywodraeth Cymru</li> <li>- Cyfreithiwr</li> <li>- Comisiynydd y Gymraeg</li> </ul>  |



|    |  |
|----|--|
|    | <ul style="list-style-type: none"> <li>- Eusko Jaurlaritza (Llywodraeth Gwlad y Basg)</li> <li>- Udaras na Gaeltachta (Sefydliad hyrwyddo'r iaith Wyddeleg)</li> <li>- Trydydd Sector/Mudiadau Iaith, e.e. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Cylch yr Iaith</li> <li>- Arbenigwyr cynllunio ieithyddol, e.e. Prifysgol Bangor</li> <li>- Awdurdodau eraill yng Ngorllewin a Gogledd Cymru</li> <li>- Datblygwyr</li> </ul>  |
| DD | <p><u>Dadansoddiad</u></p> <p><u>Rhan 1 (hwn yn benodol i'r CCA drafft)</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Craffu'r fframweithiau drafft ar gyfer Datganiad Iaith Gymraeg ac Asesiad Effaith Iaith Gymraeg</li> </ul> <p><u>Rhan 2 (hwn yn benodol i'r cyd-destun polisi/cyngor cenedlaethol)</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Pwysu a mesur tystiolaeth a gasglwyd gan y rhai a gyfwelwyd</li> </ul>  |
| E  | <p><u>Llunio'r Adroddiad</u></p> <p><u>Rhan 1 (hwn yn benodol i'r CCA drafft)</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- (Gweithgor): Trafod fframwaith drafft ar gyfer paratoi Datganiad Iaith Gymraeg a fframwaith drafft ar gyfer paratoi Asesiad Effaith Iaith Gymraeg</li> <li>- Cyflwyno adroddiad am ganfyddiadau ac argymhellion y Gweithgor i'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd</li> <li>- (Pwyllgor Craffu) Trafod sylwadau a dderbyniwyd adeg ymgynghoriad cyhoeddus am y CCA drafft</li> <li>- Cyflwyno adroddiad am ganfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd</li> </ul> <p><u>Rhan 2 (hwn yn benodol i'r cyd-destun polisi/cyngor cenedlaethol)</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Nodi a thystiolaethu prif ganfyddiadau'r Gweithgor ym mis Chwefror a Mawrth</li> <li>- Llunio a chofnodi argymhellion</li> <li>- Cyflwyno'r Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu am sylwadau a chadarnhad</li> <li>- Cyflwyno Adroddiad i Aelod Cabinet Amgylchedd</li> <li>- Cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol fel sail i drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru neu drafodaethau gydag rhanddeiliaid perthnasol eraill</li> </ul> |
| F  | <p><u>Amserlen:</u></p>  |

|  |                                       |  |
|--|---------------------------------------|--|
| 17 Tachwedd 2017                                   | Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | - Diweddariad am rôl CCA, proses, amserlen ac amlinelliaid o gynnwys posib y CCA.  |
| 7 Rhagfyr 2017                                     | Pwyllgor Craffu Cymunedau             | - Diweddariad am rôl CCA, proses, amserlen ac amlinelliaid o gynnwys posib y CCA.  |
| Diwedd Tachwedd                                    | Gweithgor Craffu                      | - Cytuno ar y briff er mwyn ychwanegu gwerth i'r broses, e.e. canolbwyntio ar broses paratoi'r CCA er mwyn sicrhau bod y trefniadau priodol yn ei le i gael adborth gan randdeiliaid perthnasol; ystyried fframwaith drafft sy'n adnabod gofynion ar gyfer Datganiad Iaith Gymraeg a fframwaith drafft ar gyfer Asesiad Effaith Iaith Gymraeg; a chasglu tystiolaeth er mwyn ceisio dylanwadu ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r NCT 20 eto – gall hyn gynnwys trafod efo Awdurdodau eraill yng Ngorllewin Cymru a rhai eraill yng Ngogledd Cymru. |
| Rhagfyr 2017                                       | Gweithgor Craffu                      | - ystyried fframwaith drafft sy'n adnabod gofynion ar gyfer Datganiad Iaith Gymraeg.   |
| Dechrau Ionawr 2018                                | Gweithgor Craffu                      | - ystyried fframwaith drafft sy'n adnabod gofynion ar gyfer Asesiad Effaith Iaith Gymraeg  |
| 26 Ionawr 2018<br>(papurau yn barod erbyn 19/1/18) | Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | - Ystyried Prif Ganfyddiadau ac Aelodau'r Gweithgor Craffu<br>- Ystyried CCA drafft ymgynghoriad cyhoeddus   |
| Chwefror - Mawrth 2018                             | Ymgynghoriad Cyhoeddus                | - Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn derbyn, cofnodi ac ystyried sylwadau & adnabod newidiadau drafft mewn ymgynghoriad efo swyddogion iaith a swyddogion cynllunio   |
| Chwefror 2018                                      | Gweithgor Craffu                      | - Ystyried tystiolaeth i baratoi papur i Lywodraeth Cymru i ddylanwadu ar NCT 20   |
| Mawrth 2018  | Gweithgor Craffu                      | - Ystyried tystiolaeth i baratoi papur i Lywodraeth Cymru i ddylanwadu ar NCT 20 a llunio argymhellion.  |
| Ebrill 2018  | Pwyllgor Craffu Cymunedau             | - Ystyried canfyddiadau'r ac argymhellion y Gweithgor a gynhelir ym mis Chwefror a Mawrth 2018   |

|          |                                    |  |
|----------|------------------------------------|--|
|          |                                    | <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ystyried sylwadau a dderbyniwyd am y CCA drafft</li> </ul>  |
| Mai 2018 | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ystyried canfyddiadau'r Pwyllgor Craffu am sylwadau'r ymgynghoriad cyhoeddus am y CCA</li> <li>- Ystyried drafft terfynol o'r CCA a'i fabwysiadu</li> </ul> |

# Eitem 7

|                      |  |
|----------------------|--|
| <b>PWYLLGOR</b>      | Pwyllgor Craffu Cymunedau  |
| <b>DYDDIAD</b>       | 7 Rhagfyr 2017   |
| <b>TEITL</b>         | <b>DIWEDDARIAD AR YR ARGYMHELLION YN SGIL YR YMCHWILIAD CRAFFU YN Y MAES CYNLLUNIO</b> |
| <b>AELOD CABINET</b> | Y Cyngorydd Dafydd Meurig  |
| <b>PWRPAS</b>        | Rhoddir diweddariad yn dilyn yr adroddiad ymchwil a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017      |

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Bu i Adroddiad Ymchwiliad Craffu Cynllunio gael ei gyhoeddi yn Mawrth 2017. Roedd hwn yn ganlyniad o gyfarfodydd rhwng Aelodau oedd yn rhan o'r Ymchwiliad gyda'r Aelod Cabinet a'r Uwch Reolwr Cynllunio i gytuno meysydd penodol yr ymchwiliad a gweithredwyd arno dros 4 o gyfarfodydd. Rhannwyd y meysydd penodol i'r 5 rhan sydd wedi'u cyfeirio atynt isod.

## 2. PRIF GANFYDDIADAU'R YMCHWILIAD CRAFFU

- 2.1 Mae prif ganfyddiadau'r Ymchwiliad yn cael eu nodi isod gyda nodyn o'r dystiolaeth y tu cefn i'r canfyddiad hwnnw ac wedyn yr argymhelliad a wna'r Ymchwiliad yn ei ddilyn ynghyd â'r diweddariad ar y sefyllfa.

### 2.2 GOFYNION STATUDOL

**Canfyddiadau:** Mae'r broses gynllunio yn gorfod gweithredu o fewn fframwaith statudol ynghyd â Chynllun Datblygu Unedol (Cynllun Datblygu Lleol yn ystod 2017) ac felly nid oes llawer o ryddid o fewn y system.

#### Tystiolaeth

- Deddfwriaeth sylfaenol
- Is-ddeddfwriaeth
- Polisiâu a chanllawiau cynllunio perthnasol
- Cynllun Datblygu Unedol

**Argymhelliad i'r Aelod Cabinet:** Argymhellir bod yr Aelod Cabinet yn sicrhau bod y Cyngor yn monitro effaith y Cynllun Datblygu Lleol (ar ôl iddo gael ei gymeradwyo) yn rheolaidd. Yn ogystal dylid sicrhau hyfforddiant i aelodau ynghyd ag aelodau cyngorau tref a chymuned i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion cynllunio, gan ystyried mewnbwn allanol fel bo'n berthnasol.

**Diweddariad:** Mae fframwaith i fonitro'r Cynllun wedi cael ei adnabod a'i gymeradwyo gan yr Arolygydd Cynllunio. Fe'i ddefnyddir yn flynyddol i ystyried effaith polisiâu'r Cynllun. Bydd y fframwaith yn sail i Adroddiad Monitro a gaiff ei chyflwyno i'r Cyngor cyn diwedd mis Hydref pob blwyddyn.

Cynhaliwyd sesiwn codi ymwybyddiaeth am gynnwys y Cynllun i holl Aelodau'r Cyngor dechrau mis Gorffennaf 2017. Cynhaliwyd sesiwn codi ymwybyddiaeth am y Cynllun i holl Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn ystod mis Tachwedd 2017. Mae trefniadau'n cael eu gwneud i fanteisio ar gynnig gan Cymorth Cynllunio Cymru i gynnal ail gyfres o weithdai i Gyngorau tref a chymuned am faterion cynllunio yn fuan yn 2018.

## 2.3 PERFFORMIAD Y GWASANAETH

**Canfyddiadau:** Ar y cyfan mae perfformiad y gwasanaeth yn dda, gyda nifer cynyddol o geisiadau yn cael eu cyflwyno. Yn sgil y trafodaethau daethpwyd i'r casgliad bod plethiad amlwg rhwng gwaith y gwasanaeth cynllunio a gwaith rheolaeth adeiladu'r Cyngor.

### Tystiolaeth

- Adroddiad perfformiad 2015-16
- Sylwadau am yr anhawster o fynd a'r maen i'r wal wrth fynd drwy Galw Gwynedd

**Argymhelliad i'r Aelod Cabinet:** Argymhellir i'r Aelod Cabinet gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd i sicrhau'r gwasanaeth gorau i'r cyhoedd o ran cael gafael ar swyddog yn ogystal ag adolygu'r plethiad rhwng cynllunio a rheolaeth adeiladu i sicrhau gwasanaeth cyflawn a llyfn i'r cyhoedd.

**Diweddariad:** Bu i'r ddwy Uned ddechrau ar yr Ymarferiad Ffordd Gwynedd ond oherwydd materion salwch hirdymor rhai aelodau o'r Tîm ac effaith hynny ar gapasiti yr Uned penderfynwyd i ohirio'r Ymarferiad ac i adolygu'r sefyllfa dechrau 2018.

## 2.4 YSTYRIAETH I'R ECONOMI

**Canfyddiadau:** Mae'r Cyngor yn rhoi sylw teilwng i faterion economaidd wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu Unedol.

### Tystiolaeth

- Cynllun Datblygu Unedol (Rhan 2) a pholisïau perthnasol y rhan hwnnw
- Tystiolaeth yr ymchwiliad bod yr economi wedi derbyn ystyriaeth deilwng wrth wneud penderfyniadau

**Argymhelliad i'r Aelod Cabinet:** Argymhellir i'r Aelod Cabinet bod materion yn ymwneud â'r economi yn cael sylw amlwg a phenodol yn yr adroddiad er mwyn sicrhau bod aelodau yn deall yr effaith ar yr economi e.e. pennawd ar wahân ar gyfer yr economi yn hytrach na'i fod yn cael ei golli o dan "egwyddor y datblygiad".

**Diweddariad:** Mae materion yn ymwneud gyda'r economi yn derbyn sylw amlwg a phriodol fel rhan o'r adroddiadau ar geisiadau cynllunio.

## 2.5 CYNLLUN DIRPRWYO

**Canfyddiadau:** Mae trothwyon Cynllun Dirprwyo Gwynedd i weld yn isel o'i gymharu â sefydliadau eraill ac fe amlygir hynny drwy nifer y ceisiadau sy'n cael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Cynllunio.

### Tystiolaeth

- Perfformiad cymharol Cymru 2015-16

**Argymhelliad i'r Aelod Cabinet:** Argymhellir i'r Aelod Cabinet addasu trothwyon y Cynllun Dirprwyo fel y nodir yn Atodiad 3

**Diweddariad:** Mae'r gwaith yma a'r argymhellion i addasu'r trothwyon bellach wedi derbyn cefnogaeth Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ac mae bwriad i fwrw ymlaen i wneud yr addasiadau yn ffurfiol drwy'r drefn briodol.

## 2.6 **PROFIAD DEFNYDDWYR**

**Canfyddiadau:** Mae trefniadau ar gyfer cynnig cyngor i ddarpar ddatblygwyr yn cael ei werthfawrogi ac yn cynnig opsiynau i ddatblygwyr addasu cais fel bo'r angen.

### **Tystiolaeth**

- Holiadur bodlonrwydd 2015-16

**Argymhellaid i'r Aelod Cabinet:** Argymhellir i'r Aelod Cabinet i barhau gyda'r gwaith da a bod yr Aelod Cabinet yn derbyn diweddariad rheolaidd o'r gwersi a ddysgir o'r broses.

**Diweddariad:** Mae'r gwaith da yn parhau a'r sefyllfa yn cael ei fonitro yn rheolaidd gan gynnwys adrodd i'r Pwyllgor Craffu.